Dogfen ir Cyhoedd

**R H A G L E N**

1 **RHAGLEN - CYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLOL GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 1 - 44)

This page is intentionally left blank

**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Head of Legal and Democratic Services
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

CS/NG

28 Chwefror, 2022

Nicola Gittins 01352 702345
nicola.gittins@flintshire.gov.uk

Y Cynghorydd: Glyn Banks, Richard Dew, Brian Jones, Dafydd Meurig, Bob Parry, Greg Robbins, Brian Cossey, Julian Thompson-Hill and Catrin Wager, Gareth Wyn Griffith (+1 Swydd wag o Cyngor Sir y Fflint)

Annwyl Syr / Fadam

Cynhelir Cyfarfod **CYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLOL GOGLEDD CYMRU** yn **CYFARFOD RHITHWIR** ar **DYDD GWENER, 4YDD MAWRTH, 2022** am **9.00 AM** I drafod y materion canlynol.

Yn gywir

Gareth Owens
Prif Swyddog (Llywodraethu)

**A G E N D A**

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGAN BUDDIANNAU**

3 **DERBYN COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 3 - 8)

4 **MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL**

County Hall, Mold. CH7 6NA
Tel. 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.flintshire.gov.uk
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NR
Ffôn 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.siryfflint.gov.uk

The Council welcomes correspondence in Welsh or English
Mae'r Cyngor yn croesawau gohebiaeth yn y Cymraeg neu'r Saesneg

5 **ADRODDIAD DIWEDDARU GWASANAETHAU** (Tudalennau 9 - 18)

Cyflwyno diweddariad i Aelodau ar agweddau gweithredol cytundeb y Parc Adfer.

6 **ADRODDIAD AR GRONFA LLES CYMUNEDOL PARC ADFER** (Tudalennau 19 - 30)

Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ynghylch y prosiect a'r meini prawf cymhwyster, trefniadau rheolaethol a threfniadau lansio'r brif gronfa hirdymor sef Cronfa Lles Cymunedol Parc Adfer.

7 **ADRODDIAD AR Y GANOLFAN WYBODAETH A'R RHAGLEN ADDYSG** (Tudalennau 31 - 40)

Diweddaru'r Aelodau ar y Ganolfan Ymwelwyr a'r Rhaglen Addysg.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Mae'r eitem a ganlyn yn cael ei hystyried yn eitem eithriedig yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4 Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y cafodd ei diwygio)

Mae'r adroddiadau yn cynnwys manylion yn ymwneud â materion ariannol y 5 Cyngor. Mae'r materion hyn yn fasnachol sensitif ac mae'r budd cyhoeddus o ddiogelu'r materion masnachol hyn yn gorbwyso budd cyhoeddus o ddatgelu'r wybodaeth tra bydd y cytundeb yn weithredol.

8 **ADRODDIAD ARIANNOL** (Tudalennau 41 - 48)

Cyflwyno diweddariad i Aelodau ar ragolygon costau cytundeb Parc Adfer.

Mae'r eitem a ganlyn yn cael ei hystyried yn eitem eithriedig yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4 Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y cafodd ei diwygio)

Mae'r adroddiadau yn cynnwys manylion yn ymwneud â materion ariannol y 5 Cyngor. Mae'r materion hyn yn fasnachol sensitif ac mae'r budd cyhoeddus o ddiogelu'r materion masnachol hyn yn gorbwyso budd cyhoeddus o ddatgelu'r wybodaeth tra bydd y cytundeb yn weithredol.

9 **EITEMAU MASNACHOL** (Tudalennau 49 - 54)

Cyflwyno diweddariad i Aelodau ar agweddau masnachol, cyfreithiol a chontractol cytundeb Parc Adfer.

10 **UNRHYW FATER ARALL**

NWRWTP
North Wales Residual Waste Treatment Project

# CYD BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU

Dydd Iau 10fed Mehefin 2021 am 2pm – cyfarfod rhithiol trwy gyfrwng gwasanaeth fideo gynadledda Webex

---

**YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Brian Jones (Is gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynghorydd Greg Robbins (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cynghorydd Glyn Banks | Cyngor Sir y Fflint |
| Cynghorydd Catrin Wager | Cyngor Gwynedd |
| Cynghorydd Julian Thompson-Hill | Cyngor Sir Ddinbych |

**HEFYD YN BRESENNOL:**
**Cyngor Sir y Fflint**
Colin Everett (Prif Weithredwr Arweiniol)
Gareth Owens (Prif Swyddog (Llywodraethu))
Tina Roberts (Cyfrifydd Prosiect)
Gill Ainscow (Swyddog Gweinyddol Parc Adfer)
Katie Wilby (Prif Swyddog (Strydoedd a Threfnidiaeth))

**Cyngor Sir Ddinbych**
Alan Roberts (Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu)

**Cyngor Bwrdeistref Sirol**
Andrew Wilkinson (Pennaeth Gwasanaethau Bro)

**Cyngor Gwynedd**
Steffan Jones (Pennaeth Priffyrdd a Threfol)
**Cyngor Sir Ynys Môn**
Meirion Edwards (Prif Swyddog Rheoli Gwastraff)

**Prosiect Trin Gwastraff Gwedilliol Gogledd Cymru**
Steffan Owen (Rheolwr Contract Rhanbarthol)

1. **YMDDIHEURIADAU**

Nodwyd gan Meirion Edwards bod y Cynghorydd Richard Dew yn cael trafferthion ymuno â'r system Webex a'i fod yn ymddiheuro ond am geisio ymuno.

Tony Ward (Cyngor Sir Ddinbych), Tara Dumas (Cyngor Sir Ddinbych)

2. **DATGAN DIDDORDEB**

Ni wnaed unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.



DRAFT

3. **ETHOL CADEIRYDD AC IS GADEIRYDD AR GYFER Y PWYLLGOR**

Enwebodd y Cynghorydd Catrin Wager y Cynghorydd Greg Robbins ar gyfer swydd Cadeirydd y Cyd Bwyllgor gyda'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill yn eilio.

Enwebodd y Cynghorydd Catrin Wager y Cynghorydd Brian Jones ar gyfer swydd Is Gadeirydd y Cyd Bwyllgor gyda'r Cynghorydd Glyn Banks yn eilio.

**PENDERFYNWYD**:

(a) *Ethol y Cynghorydd Greg Robbins yn Gadeirydd y Cyd Bwyllgor;*
(B) *Ethol y Cynghorydd Brian Jones yn Is Gadeirydd y Cyd Bwyllgor*

4. **DERBYN COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cyd Bwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 29ain Ionawr 2021 ar gyfer eu derbyn. Derbyniwyd hwy fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD:**

*Derbyn cofnodion cyfarfod Cyd Bwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 29ain Ionawr 2021 fel cofnod cywir.*

5. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r cyfarfod blaenorol.

6. **CYFRIFON BLYNYDDOL**

Aeth Steffan Owen drwy'r Cyfrifon Blynyddol ac amlygu bod y dull o gyfrifo'r prosiect wedi newid yn dilyn adolygiad gan Gyngor Sir y Fflint i gynnwys costau gwasanaethu'r Cyd Bwyllgor yn unig.

Ni wnaed unrhyw sylwadau.

**PENDERFYNWYD:**

(a) *Derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2021.*


Tudalen 4

7. **ADRODDIAD DIWEDDARU GWASANAETHAU**

Aeth Steffan Owen (SO) drwy'r Adroddiad Diweddaru Gwasanaethau gan nodi bod danfon gwastraff i'r safle wedi parhau heb unrhyw broblemau sylweddol nac ailadroddus a nodi hefyd bod hyn yn ystod epidemig Cofid-19. Mae'r peiriant hefyd yn perfformio'n dda iawn o ran effeithiolrwydd, allyriadau ayyb gydag allyriadau yn sylweddol ïs na'r lefelau a ganiateir.

Amlinellodd SO fe yr oedd y tueddiad o dunelledd uchel wedi parhau a'r dunelledd wedi cynyddu rhwng 2020 a 2021 o gymharu â'r lefelau cynt.

Gofynnodd y Cynghorydd Catrin Wager pa mor fuan y byddai awdurdodau yn derbyn data defnyddiol.

Nodwyd gan y Cynghorydd Greg Robbins y byddai diweddariad misol yn ddefnyddiol.

Gofynnodd y Cynghorydd Glyn Banks pam bod y cyfnod cau blynyddol ar gyfer cynnal a chadw wedi ei gynnal ym mis Mehefin eleni. Nodwyd gan SO mai Mehefin yw'r mis sydd wedi ei glustnodi ar gyfer y cyfnod cau blynyddol, fe'i symudwyd i fis Medi yn 2020 oherwydd bod cyfyngiadau Cofid wedi amharu ar argaeledd contractwyr ayyb. Ym mis Mehefin y caiff ei gynnal o hyn allan.

Amlinellodd SO y cynlluniau bod holl wastraff Awdurdodau sy'n Bartneriaid yn cael ei ddanfon i Barc Adfer yn ystod y cyfnod cau ac na ddylid bod unrhyw amhariad ar ddanfoniadau. Amlinellodd hefyd y cynlluniau wrth gefn oedd mewn lle rhag ofn y byddai'n rhaid ail gyfeirio gwastraff, gan ddefnyddio tirlenwi fel y dewis olaf yn unig, pe byddai'r holl safleoedd wrth gefn yn methu â derbyn y gwastraff.

Nodwyd gan SO bod Parc Adfer yn gweithio'n dda a bod yr allyriadau o fewn y terfynnau a ganiateir, gan gynnwys deunydd gronynnol PM2.5.

Hysbysodd SO yr Aelodau bod lefelau ailgylchu lludw tua 21.7%, sef tua'r hyn a ddisgwylid. Roedd hyn yn golygu ychwanegu tua 7% at lefelau ailgylchu awdurdodau unigol.

Holodd y Cynghorydd Glyn Banks - os yw 21% yn cael ei ailgylchu, beth sydd yn digwydd i'r 78-79% sydd yn weddill? Ymatebodd SO bod y broses yn lleihau cyfaint a phwysau y gwastraff trwy ei drawsnewid yn wres ar gyfer cyhyrchu trydan. Lludw yw'r hyn sydd yn weddill.

**PENDERFYNWYD:**

*(a)* *Nodi cynnwys yr adroddiad..*

8. **ADRODDIAD MEYSYDD DATBLYGU**

Aeth Steffan Owen drwy'r adroddiad fel y cyhoeddwyd ef, gan roi cefndir i rai o'r meysydd datblygu sydd yn berthnasol i safle Parc Adfer a'r ardal o'i gwmpas.


Tudalen 5

DRAFT

Roedd y rhain yn cynnwys y defnydd o wres o Barc Adfer, a nodwyd gan SO y byddai astudiaeth yn cael ei chomisiynu ar y defnydd o wres – a allai gynyddu effeithiolrwydd y peiriant yn ogystal â chynhyrchu incwm ychwanegol.

Hefyd, amlinellodd SO brosiectau eraill y tu allan i Barc Adfer, megis gorsaf reilffordd Parc Glannau Dyfrdwy a Hyb Heidrogen Glannau Dyfrdwy. Nodwyd ganddo bod y ddau brosiect wedi cysylltu’n bositif gyda Pharc Adfer ac Enfinium.

Nodwyd gan CE y byddai’r prosiect heidrogen yn brosiect arbennig i arddangos y modd y gellir defnyddio technoleg ar gyfer cerbydau cyhoeddus a masnachol ar draws y rhanbarth. Ychwanegodd mai  KW yw’r swyddog arweiniol ac y byddai yn gam positif iawn pe gallai Parc Adfer fod yn ffynhonnell ynni ar gyfer heidrogen.

Gofynnodd y Cynghorydd Brian Jones os oeddem mewn trafodaeth gyda Chynghrair Dyfrdwy Mersi.

Atebodd CE ein bod, a bod hyn yn golygu gweithio traws rhanbarthol.

Gofynnodd y Cynghorydd Glyn Banks os y gellid defnyddio’r rheilffordd ar gyfer cario gwastraff i’r safle.

Ymatebodd SO bod hyn yn bosibl a bod y safle wedi ei ddylunio i dderbyn gwastraff trwy’r rheilffordd. Ychwanegodd bod llawer o waith wedi ei wneud ar hyn yn ystod y broses caffael, gan nodi bod yn rhaid i’r holl fidwyr ddarparu bid ar sail rheilffordd. Yn anffodus, canlyniad hyn oedd canfod bod costau rheilffordd yn sylweddol uwch nag opsiwn y ffyrdd ac yn rhy ddrud i’w ystyried.

Ychwanegodd CE mai’r broblem oedd costau cario nwyddau ar y rheilffordd..

Ychwanegodd y Cynghorydd Greg Robbins ei fod wedi gweld hyn yn achos prosiectau eraill hefyd.

Ychwanegodd SO ymhellach bod perchnogion newydd Enfinium yn awr yn edrych ar welliannau i effeithiolrwydd eu holl beiriannau Ynni o Wastraff.

Amlinellodd SO y gwaith oedd ei angen ar gyfer datblygu rhaglen addysg i gefnogi’r ganolfan ymwelwyr ar y safle.

Gofynnodd y Cynghorydd Catrin Wager os y byddai’r cynllun cymorth i deithio yn parhau i fodoli.

Dywedodd CE y byddai.

Yna cyflwynodd SO y cefndir i’r Gronfa Adfer Cymuned oedd yn hyfyw.

Ychwanegodd CE bod yr arian a ddyranwyd ar gyfer deunyddiau addysgol ayyb yn cael ei gario drosodd.


Tudalen 6

Gofynnodd y Cynghorydd Glyn Banks beth oedd gwerth y gronfa, ac eglurodd SO mai £230k y flwyddyn yw cyfanswm y gronfa, gyda £30k - £50k wedi ei neilltuo ar gyfer deunyddiau addysgol a chymorth i deithio.

**PENDERFYNWYD:**

*(a)* *Nodi cynnwys yr adroddiad.*

*(b)* *Bod y Cyd Bwyllgor yn darparu cefnogaeth ar gyfer y datblygiadau a amlinellwyr uchod os bydd angen.*

9. **ADRODDIAD EITEMAU MASNACHOL (RHAN 2)**

Aeth SO drwy'r adroddiad fel y'i cyhoeddwyd, gan roi diweddariad ar y cynnydd yn y trafodaethau gydag Enfinium o safbwynt dau fater contractiol. Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch deialog gyda WTI, y camau nesaf a'r sail ar gyfer cyrraedd cytundeb gydag Enfinium.

**PENDERFYNWYD:**

*(c)* *Nodi cynnwys yr adroddiad.*

9. **UNRHYW FATER ARALL**

Diolchodd y Cynghorydd Greg Robbins i Colin Everett ar ran y Cyd Bwyllgor am ei waith caled a'i ymroddiad yn cyflawni prosiect mor fawr a chymhleth. Nodwyd gan CE bod hyn i raddau helaeth oherwydd cryfder y gweithio mewn partneriaeth.

Diolchodd y Cynghorydd Brian Jones i Colin Everett a Steffan am fod mor broffesiynol a dymunodd yn dda i Colin ar gyfer y dyfodol.

(Daeth y cyfarfod i ben am 3:30 pm)

---

DRAFT


Tudalen 7

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol

**NWRWTP**
North Wales Residual Waste Treatment Project

**EITEM AGENDA RHIF: 5**

**ADRODDIAD I:** **CYD-BWYLLGOR NWRWTP**

**DYDDIAD:** **4ydd MAWRTH 2022**

**ADRODDIAD GAN:** **RHEOLWR CONTRACTAU**

**TESTUN:** **Y DIWEDDARAF AR Y GWASANAETHAU**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyd Bwyllgor ynghylch y cynnydd ar agweddau gweithredol yn y Parc Adfer.

## 2. CEFNDIR

2.1. Mae Parc Adfer wedi bod yn llwyr weithredol ers 2 flynedd, gan gyrraedd lefel gwasanaethau llawn yn niwedd mis Rhagfyr 2019. Llwyddwyd i barhau gyda'r gwasanaethau ym Mharc Adfer yn ddi-dor trwy gydol Pandemig Cofid-19.

2.2. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o berfformiad gweithredol y Gwasanaethau ym Mharc Adfer dros gyfnod y Gwasanaethau.

## 3. YSTYRIAETHAU

Gweithgareddau

3.1. Ers cyfarfod diwethaf y Cyd Bwyllgor ym mis Mehefin 2021, mae gwasanaethau wedi parhau yn ddi-dor heb amharu o gwbl ar ddanfoniadau gan awdurdodau.

3.2. Er bod parhâd y pandemig Cofid-19 yn naturiol wedi rhoi pwysau ar Parc Adfer, mae'r protocolau a'r prosesau a gyflwynwyd ar y safle wedi sicrhau bod y safle wedi parhau yn gwbl weithredol drwy gydol y pandemig Cofid gyda'r bwriad o drin gwastraff yr awdurdodau sy'n bartneriaid. Mae nifer fach o ymweliadau safle wedi ail gychwyn (cyfarfodydd allweddol ayyb), gyda mesurau ychwanegol mewn lle ar gyfer y cyfarfodydd hynny.

3.3. Mae'r Awdurdodau sy'n Bartneriaid yn danfon tua 800 cerbyd y mis (oddeutu 200 yr wythnos) i Barc Adfer, gyda mwyafrif y dunelledd yn cyrraedd mewn Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV's), ynghyd ag amrywiol gerbydau casglu Sir y Fflint hefyd yn danfon i'r safle.


Tudalen 9

3.4. Mae'r safle hefyd yn parhau i weithredu yn foddhaol iawn o ran effeithiolrwydd, allyriadau ayyb - yr allyriadau ymhell o dan y lefelau a ganiateir (gweler paragraffau 3.9 – 3.11 isod am fanylion pellach).

Tunelledd a gesglir ac effaith Cofid-19

3.5. Ers cychwyn pandemig Cofid-19, adroddwyd i'r Cyd Bwyllgor bod y dunelledd o'r Awdurdodau sy'n Bartneriaid wedi cynyddu yn ystod 2020 a 2021. Mae'r cynnydd hwn wedi parhau gyda lefelau tunelledd yn 2021 yn uwch nag yn y misoedd cyfatebol yn 2020, a'r rhai hynny yn eu tro yn uwch na'r tunelledd cyfatebol yn 2019. Fodd bynnag, mae'r patrwm hwn yn ymddangos fel pe bai yn arafu ychydig a'r misoedd mwyaf diweddar (Rhagfyr 2021 a Ionawr 2022) yn ïs na'r flwyddyn flaenorol.

3.6. Wedi eu cynnwys yn Atodiad 1 isod, gwelir tablau yn dangos – yn gymharol fesul mis - y dunnelledd a dderbyniwyd i Barc Adfer ar gyfer y cyfnod Ionawr i Ebrill 2020 a'r un misoedd yn 2021.

Cau Blynyddol ar gyfer Cynnal a Chadw

3.7. Mae'r drefn o gau Parc Adfer yn 2022 ar gyfer y cynnal a chadw blynyddol wedi ei gynllunio ar gyfer y pythefnos yn cychwyn ar 11eg Mehefin 2022. Ni fu angen ailgyfeirio gwastraff yn ystod y cyfnod cau yn 2021, ac fel yn 2021 y bwriad yw sicrhau hyn trwy ostwng lefelau byncer cyn y dyddiad hwn gan leihau mewnbynnau gwastraff masnachol yn ystod y cyfnod cyn y cyfnod cau. Bydd hyn yn sicrhau y bydd y byncer ym Mharc Adfer yn gallu derbyn Gwastraff Contract oddi wrth yr Awdurdodau trwy gydol y cyfnod cau. Mae cynlluniau wrth gefn wedi eu sicrhau rhag ofn i unrhyw faterion godi yn ystod y cyfnod cynnal a chadw a bod angen ailgyfeirio gwastraff yr awdurdodau i safle heblaw Parc Adfer.

Monitro Allyriadau

3.8. Mae monitro allyriadau unrhyw ynni oddi wrth adnodd gwastraff yn rhan hanfodol o'i weithrediad ac o'i gydymffurfiad gyda'i drwydded amgylcheddol, a ddosberthir gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yng Nghymru. Mae rheoliadau caeth mewn grym ar gyfer monitro lefelau pob allyriadau ac mae'n rhaid i weithredwyr peiriannau gydymffurfio â hwy.

3.9. Yn niwedd haf / dechrau hydref 2021, cyhoeddodd CNC rybudd caniatâd ffurfiol i Enfinium Parc Adfer (sef Rhybudd Rheoliad 61), yn gofyn am gwblhau asesiad yn erbyn casgliad o ganllawiau a ddiweddarwyd yn ymwneud ag allyriadau o ynni oddi wrth Beiriannau Gwastraff. Yn ei hanfod, roedd y rhybudd hwn yn gofyn i Enfinium lunio dadansoddiad o'r bylchau yn erbyn gofynion y rheoliadau diwygiedig a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2019.

3.10. Bu i Enfinium gwblhau'r adolygiad hwn yn niwedd Tachwedd 2021, ac roedd yn dangos bod Parc Adfer eisoes yn cwrdd â mwyafrif y gofynion yn y canllawiau newydd, heb wneud unrhyw newidiadau nac addasiadau mawr i'r peiriannau, prosesau na dulliau gweithio. Cyflwynwyd yr asesiad i CNC ym mis Rhagfyr 2021.


Tudalen 10

Mae hyn yn newydd positif ac yn dangos bod Parc Adfer yn gweithredu i safonau monitro ac allyriadau uchaf posibl a mwyaf modern (a newydd).

Materion gweithredol eraill

3.11. Fel y nodwyd yn 3.3 uchod, mae danfoniadau gwastraff wedi parhau i gyrraedd y safle heb unrhyw broblemau sylweddol nac ailadroddus. Mae'r amseroedd oedi gan gerbydau ar y safle wedi bod ymhell o dan y terfynnau amser gydol y cyfnod.

3.12. Yn dilyn rhai misoedd o drafod gydag Enfinium ac yn uniongyrchol gyda CNC, cafodd caniatâd Parc Adfer ei ddiwygio (fel y cymeradwywyd gan CNC) i allu derbyn yn uniongyrchol gerbydau gwastraff a glanhau Sir y Fflint a'r cerbydau sydd yn cyflawni gwasanaeth casglu Cynnyrch Hylendid Amsugnol (AHP) o dai – gwasanaeth sydd newydd gychwyn.

3.13. Fel rhan o'u dyletswyddau rheolaidd, mae CNC yn llunio Adroddiad Asesiad Cydymffurfiant yn rheolaidd ar safleoedd gwastraff megis Parc Adfer, gan asesu'r modd y mae'r safle yn perfformio mewn perthynas â rheoliadau ei drwydded. Mae'r asesiad yn edrych ar y materion canlynol:-

- Allyriadau – Aer
- Allyriadau - Gwastraff
- Rheolaeth Gyffredinol – Trefn rheoli a dulliau gweithredu
- Monitro a Chofnodion, Cynnal ac Adrodd - Monitro allyriadau ac amgylchedd
- Monitro a Chofnodion, Cynnal ac Adrodd – Adrodd yn ôl a hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru
- Effeithiolrwydd Adnodd – Effeithiolrwydd ynni

Derbyniodd Parc Adfer ganlyniad "Asesiad (A)" ym mhob un o'r categoriau uchod, sydd yn nodi bod pob un o'r categorïau wedi eu hasesu ac na chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o ddiffyg cydymffurfiad. Dyma'r lefel uchaf y gall unrhyw safle ei sgorio ar yr asesiad, ac mae, wrth gwrs, yn hynod bositif. Dylid cymeradwyo Enfinium Parc Adfer am y modd y maent yn rheoli ac yn gweithredu'r safle, sydd yn amlwg o'r safon uchaf bosibl.

3.14. Mae'r bartneriaeth wedi gweithio'n adeiladol gyda Pharc Adfer i ddatrys problemau bach o ddydd i ddydd sydd yn digwydd yn anochel wrth redeg safle fel Parc Adfer ac yn cynnwys meini prawf derbyn gwastraff, mynediad cerbydau i'r safle, staffio ayyb, ac mae'r agwedd adeiladol yn diogelu parhâd triniaeth gwastraff yr awdurdodau sy'n bartneriaid ym Mharc Adfer.

Perfformiad ailgylchu ac ailgyfeirio gwastraff

3.15. Mae Parc Adfer yn cyfrannu tuag at ffigurau ailgylchu a thirlenwi yr awdurdodau sy'n bartneriaid trwy gyfrwng y Llosgydd Bottom Ash (IBA), sydd yn cynnwys


Tudalen 11

metalau. Ar gyfer y flwyddyn 2021/22 hyd yma, mae cyfanswm y lefelau ailgylchu yn 22.1%, sydd yn llwyr gyrraedd y disgwyliadau.

3.16. Mae hefyd yn werth nodi bod Gweddillion Rheoli Llygredd Aer (APCR), sgil-gynnyrch o'r broses glanhau allyriadau, yn awr yn mynd i adfer/ ailgylchu. Tunelledd bach iawn yw hyn (llai na 1%), fodd bynnag yn draddodiadol mae hwn wedi ei anfon i safleoedd tirlenwi penodol i gael ei waredu. Mae'r dechnoleg ar gyfer trin y deunydd hwn wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, i'r pwynt lle y mae erbyn hyn yn opsiwn hyfyw ar gyfer safleoedd fel Parc Adfer. Mae'r Bartneriaeth yn croesawu hyn ac yn gwneud yn siwr bod y safle yn gweithredu yn unol â'r perfformiad amgylcheddol uchaf posibl wrth ailgyfeirio deunydd yn llwyddiannus o safleoedd tirlenwi.

<u>Astudiaeth Gwrês</u>

3.17. Wedi i Barc Adfer dderbyn y cytundeb ac yn ystod y cyfnod comisiynu / cychwyn gwaith, llwyddodd y bartneriaeth i ennill grant o £46,900 er mwyn i ymgynghorwyr arbenigol ymgymryd ag astudiaeth i'r posibilrwydd o ddefnyddio gwrês o Barc Adfer ar gyfer adeiladau cyfagos o fewn DIP. Cyflwynwyd y grant gan Uned Cyflenwi Rhwydwaith Gwrês (HNDU) Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) Llywodraeth San Steffan.

3.18. Yn dilyn proses dendro drwyadl er mwyn sicrhau ymgynghorwyr arbenigol i wneud yr astudiaeth, rhoddwyd y tendr i Ramboll UK Ltd, a'r gwaith ar yr astudiaeth i gychwyn rhag blaen.

3.19. Bwriad yr astudiaeth yw canfod os yw'r trefniant defnyddio gwrês yn amgylcheddol llesol ac yn bosibl mewn theori, ar sail asesiad o'r galw, budd ariannol, gwariant cyfalaf a materion gweithredol.

3.20. Cafodd yr astudiaeth ei rhannu'n ddau gyfnod. Byddai'r cyfnod cyntaf yn gorffen trwy nodi pa opsiynau fyddai yn anarferol neu'n amhosibl eu cwblhau, a barnu unrhyw opsiwynau eraill ar sail budd economaidd ac amgylcheddol. Ni fyddai ail gyfnod yr astudiaeth – cyfnod posibiliadau - yn mynd rhagddo onibai bod yr uchod yn dangos ei bod yn fuddiol dilyn un neu ragor o gyfleoedd hyfyw.

3.21. Rhoddwyd cymeradwyaeth i gyflwyno'r tendr gan y Bwrdd Prosiect yn eu cyfarfod fis Ionawr, gan nodi bod costau y ddau gyfnod yn uwch na swm y grant (fel y nodwyd uchod, ni fyddid yn ysgwyddo'r costau llawn onibai bod y casgliad ar ddiwedd cyfnod 1af yn gyfforddus o fewn swm y grant).

3.22. Cyn cychwyn y caffael, cytunwyd y byddai unrhyw gostau uwchlaw swm y grant yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng Enfinium a'r Bartneriaeth. Roedd hyn yn golygu y byddai'n ofynnol i'r Bartneriaeth – pe byddai cyfnod 2 yn cael ei gwblhau – ysgwyddo'r costau uwchlaw swm y grant. Byddai'r costau hyn yn cael eu rhannu rhwng y pump awdurdod yn unol ag egwyddor sylfaenol y Cytundeb Rhyng-awdurdod. Cafodd hyn ei gymeradwyo gan y Bwrdd Prosiect.

3.23. Mae'n werth nodi yma, pe bai'n dod i'r amlwg ei bod yn werth chweil dilyn ail gymal yr astudiaeth, erbyn hynny fe fyddai'n amlwg bod o leiaf botensial ar gyfer cael budd oddi wrth ddefnyddio'r gwrês o Barc Adfer. Felly, bryd hynny byddid yn ystyried costau cyfnod 2 fel buddsoddiad.


Tudalen 12

3.24. Heblaw'r hyn a nodir uchod, mae'r Rheolwr Contract yn credu y byddai o werth rhoi achos at ei gilydd ar gyfer HNDU am swm grant ychwanegol i gwrdd ag unrhyw gostau uwchlaw'r grant sylfaenol er mwyn clirio costau cyfnod 2.

3.25. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd yr astudiaeth i'r Cyd-bwyllgor.

Crynodeb Gweithredol

3.26. I grynhoi, mae gweithrediad a pherfformiad ym Mharc Adfer wedi parhau i wneud yn dda, er gwaethaf y ffaith nad yw pandemig Cofid-19 wedi diflannu. Ni fu unrhyw amhariad ar ddanfoniadau'r awdurdodau sy'n bartneriaid, roedd amser oedi yn fyr ar y cyfan, lefelau allyriadau ymhell islaw'r lefelau a ganiateir a mesurau perfformiad eraill wedi bod yn dda.

## 4. ARGYMHELLION

4.1. Gofynnir i'r Cyd Bwyllgor:-

- Nodi cynnwys yr adroddiad.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. D/B

## 6. EFFAITH GWRTH-DLODI

D/B

## 7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL

Mae effaith amgylcheddol adnodd Parc Adfer eisoes wedi ei gyflwyno i'r Cyd Bwyllgor.

## 8. GOBLYGIADAU PERSONEL

Fel y disgrifiwyd yng nghorff yr adroddiad hwn.

## 9. YMGYNGHORI ANGENRHEIDIOL

Dim.

## 10. YMGYNGHORI GYFLAWNWYD

Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

**DEDDF MYNEDIAD AT WYBODAETH LLYWODRAETH LEOL 1985**

**Dogfennau Cefndir:**

Dim

**Swyddog Cyswllt:** Steffan Owen


Tudalen 13

Rheolwr Contract Rhanbarthol
Steffan.r.owen@flintshire.gov.uk


Tudalen 14

**Appendix 1 – NWRWTP Partnership Tonnage inputs into Parc Adfer – year to date 2021/2022**




Tudalen 15
Tudalen 15

NWRWTP
North Wales Residual Waste Treatment Project




Tudalen 16

Tudalen 16

**2018 – 2022 Monthly Comparison**



Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol

**NWRWTP**
North Wales Residual Waste Treatment Project

**Eitem Agenda 6**

**ADRODDIAD I:** **CYD-BWYLLGOR NWRWTP**

**DYDDIAD:** **4ydd MAWRTH 2022**

**ADRODDIAD GAN:** **RHEOLWR CONTRACT A PHRIF WEITHREDWR ARWEINIOL**

**TESTUN:** **ADRODDIAD CRONFA LLES CYMUNEDOL**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Cyflwyno diweddariad ar ddatblygu a lansio Cronfa Lles Cymunedol Parc Adfer (CBF).

## 2. CEFNDIR

2.1. Fel rhan o gaffael contract Parc Adfer a phartneriaeth NWRWTP, cytunwyd i ariannu a rheoli CBF a fyddai'n rhedeg gydol parhâd y contract. Ymrwymiad cytundebol yw''r CBF rhwng yr Awdurdod ac Enfinium (gynt Wheelabrator Technologies Inc (WTI)) ac mae hefyd yn ymrwymiad cytundebol gan bob awdurdod unigol sy'n bartner o fewn yr ail Gytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA2).

2.2. Cronfa flynyddol o £230,000 yw hon, sef £180,000 y flwyddyn oddi wrth y 5 awdurdod sy'n bartneriaid a £50,000 y flwyddyn oddi wrth Enfinium, a dechreuodd cronfeydd gasglu ar ddyddiad cychwyn y contract (20fed Rhagfyr 2019).

2.3. Ym mis Mehefin 2019, cymeradwyodd y Cyd Bwyllgor i ddirprwyo datblygiad a gweithrediad y CBF i Sir y Fflint fel yr awdurdod arweiniol, a chytuno i osod o'r neilltu gyfran o'r gronfa (rhwng £30k a £50k fel ffigwr arweiniol) ar gyfer gweithredu a mynediad i'r Ganolfan Addysg Ymwelwyr ar gyfer ysgolion ar draws y pump awdurdod sy'n bartneriaid. Mae hyn yn cynnwys datblygu deunydd addysgol ayyb, gweithwyr sesiynol ar gyfer grwpiau myfyrwyr / ysgolion a thrafnidiaeth rhad i fyfyrwyr / ysgolion i'r adnodd ar gyfer y pump cyngor sy'n bartneriaid.

2.4. Fel rhan o ddatblygiad y CBF, cynhaliwyd ymgynghoriad yn ystod ail hanner 2019 gyda rhanddeiliaid sydd yn agos at yr adnodd gan gynnwys cynghorau cymuned lleol (e.e. Cyngor Tref Cei Conna) ac Aelodau lleol o ran rheoli'r gronfa a meini prawf cymhwyster ayyb. Nid oedd angen unrhyw newidiadau sylweddol i'r trefniadau rheoli a gynigiwyd yn dilyn adborth. Caiff y trefniadau hynny eu hamlinellu yn yr adroddiad hwn.

## 3. YSTYRIAETHAU

Cronfa Adfer Cymunedau Parc Adfer (CRF)

3.1. Pan oedd gweithrediad y CBF yn cael ei baratoi yn gynnar yn 2020, fe ddechreuodd pandemig Cofid-19 gan olygu nad oedd yn bosibl symud ymlaen gyda'r gronfa am nifer o fisoedd. Yn dilyn hyn, yn ystod haf 2020, gwnaed cynlluniau i ddefnyddio'r CBF fel cronfa Adfer Cymunedau (CRF) er mwyn helpu cymunedau o fewn ardal Partneriaeth Glannau Dyfrdwy gyda'r heriau yr oeddent yn eu wynebu o ganlyniad i bandemig Cofid-19.

3.2. Cafodd CRF Parc Adfer ei sefydlu fel cronfa dros dro am amser byr - lansiwyd hi yn niwedd 2020 gan dderbyn ceisiadau hyd fis Tachwedd 2021. Bu i'r gronfa ariannu dros 12 o brosiectau gwerth bron i £70,000. Gweler Atodiad 2 isod am fanylion pellach.

3.3. Pan gauwyd y CRF byr dymor, dechreuodd gwaith yn hwyr yn 2021 i gwblhau'r prosiect a meini prawf cymhwyster y prif CBF tymor hir. Cafodd y rhai hyn eu cymeradwyo gan gabinet Cyngor Sir y Fflint yn Ionawr 2022, ac mae'r gronfa yn barod i'w lansio ym mis Mawrth 2022. Mae'r meini prawf cymhwyster, meini prawf prosiect a threfniadau rheoli wedi eu hamlinellu isod.

Meini Prawf Cymhwyster

3.4. Mae'n rhaid i sefydliadau a all wneud cais fod wedi eu lleoli'n lleol neu fod yn gwasanaethu preswylwyr / cymunedau o fewn Ardal Partneriaeth Glannau Dyfrdwy (gweler y map). Hefyd, mae'n ofynnol iddynt fod yn un o'r canlynol:-

- Grwpiau nid er elw ;
- Sefydliadau cymunedol neu elusennol;
- Mentrau cymunedol a chymdeithasol (e.e. mentrau cydweithredol, ymddiriedolaethau datblygu);
- Elusennau lleol gyda'u pencadlys o fewn ffiniau Ardal Partneriaeth Glannau Dyfrdwy. Mae cyrff cyhoeddus megis ysgolion yn gymwys i ymgeisio, fodd bynnag, ar gyfer gwariant y tu allan i ddyletswyddau'r awdurdod addysg lleol yn unig – bwriad y gronfa yw cefnogi buddion ychwanegol ac nid i gymryd lle dyletswyddau ariannol yr Awdurdod Lleol.

3.5. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr fod â chyfansoddiad ysgrifenedig, cyfres o reolau, neu ddogfen llywodraethu, cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu gydag o leiaf ddau lofnodwr iddo, cyn gwneud cais am grant. Gall sefydliadau newydd nad oes ganddynt y gofynion hyn drafod eu prosiect gyda thîm y gronfa i weld os yw'n bosibl eu helpu. Ni chaiff ymgeiswyr llwyddiannus ail ymgeisio am grant arall o Gronfa Lles Cymunedol Parc

Adfer onibai eu bod yn derbyn caniatâd pendant oddi wrth y Gronfa Lles Cymunedol.

3.6. Mae pump prif faen prawf yn bydd CBF Parc Adfer yn eu cefnogi, maent wedi eu hamlinellu yn Nhabl 1 isod:-

Tabl 1 – Maini Prawf Prosiect

| | Meini Prawf | Manylion |
|---|---|---|
| 1 | Ynni adnewyddadwy | Cynlluniau sydd unai yn hyrwyddo'r defnydd o ynni adnewyddadwy neu sydd yn buddsoddi yn ei ddatblygiad (h.y. ynni o ffynhonnell nad yw'n teneuo wrth ei ddefnyddio e.e. solar neu wynt). Eithriadau yn cynnwys:<br>• Ni ellir ei ddefnyddio yn lle gwariant sydd yn gyfrifoldeb statudol unrhyw gorff cyhoeddus (e.e. ailosod boeler, neu rannol adeiladu adeilad cyhoeddus newydd sydd eisoes wedi ei gynllunio);<br>• Rhaid i ymgeisydd arddangos gallu i gynnal unrhyw gyfarpar a brynir (os yn berthnasol);<br>• Rhaid i ymgeisydd gyflwyno unrhyw fanylion mewn perthynas â pherchnogaeth unrhyw ased a brynir gydag arian o'r gronfa. |
| 2 | Lleihau carbon | Cynlluniau sydd unai yn hyrwyddo lleihau allyriadau carbon neu yn buddsoddi yn hyn. |
| 3 | Lleihau gwastraff, ail-ddefnyddio ac ailgylchu | Cynlluniau sydd unai yn hyrwyddo neu yn uniongyrchol yn lleihau cynhyrchu gwastraff, neu yn cynyddu ail ddefnyddio neu ailgylchu.<br>Enghreifftiau yn cynnwys prosiectau cymunedol ail ddefnyddio. |
| 4 | Bioamrywiaeth a gwelliannau i ansawdd yr amgylchedd lleol | Cynlluniau sydd unai yn hyrwyddo lles yr amgylchedd, yn uniongyrchol fanteisiol i'r amgylchedd naturiol lleol neu yn ei wella (gan gynnwys gwella bioamrywiaeth) neu yn darparu mannau gwyrdd ar gyfer cymunedau o fewn ardal partneriaeth Glannau Dyfrdwy.<br>Gall hyn gynnwys adfer neu gefnogi bywyd gwyllt a chynefinoedd naturiol. |
| 5 | Di-garboneiddio | Cynlluniau sydd unai yn hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth sydd yn lleihau allyriadau carbon neu sydd yn buddsoddi |


Tudalen 21

| | | |
|---|---|---|
| | trafnidiaeth | yn ei ddatblygiad. Eithriadau yn cynnwys:<br>• Ni ellir ei ddefnyddio yn lle gwariant sydd yn ddyletswydd statudol unrhyw gorff cyhoeddus;<br>• Rhaid i ymgeisydd arddangos y gallu i gynnal unrhyw gyfarpar a brynir (os yn berthnasol);<br>• Rhaid i ymgeisydd arddangos unrhyw fanylion o ran perchnogaeth unrhyw ased a brynir gydag unrhyw arian o'r gronfa.<br>Enghreifftiau yn cynnwys prynu a gosod seilwaith gwefru cerbyd trydan. |

Eithriadau

3.7. Mae'r eithriadau i'r grant fel a ganlyn, gan nodi na ellir defnyddio'r CBF:-

- I wneud taliadau i unigolion, sefydliadau masnachol neu glybiau chwaraeon ac adnoddau gydag aelodaeth preifat;
- Ar gyfer prosiectau fydd o fudd i un person yn unig;
- I wneud buddsoddiadau ar hap;
- I gyd-ariannu gweithgareddau statudol a gynhelir gan Gyngor Sir y Fflint;
- I dalu dirwyon neu gosbau eraill a osodir ar grwpiau, sefydliadau neu unigolion;
- Ar gyfer cynlluniau neu grwpiau / sefydliadau sydd wedi eu lleoli y tu allan i Ardal Partneriaeth Glannau Dyfrdwy;
- Gan ymgeiswyr i ddibenion sydd ynghlwm wrth eu busnes dydd-i-ddydd yn unig;
- I hyrwyddo credoau neu ymarferion crefyddol;
- I hyrwyddo daliadau gwleidyddol neu i ariannu ymgyrchoedd etholiadol gan ddarpar ymgeiswyr mewn etholiadau lleol a / neu cyffredinol;
- I dalu am ddigwyddiadau neu wasanaethau sydd eisoes wedi eu cynnal neu eu darparu;
- Ar gyfer prosiectau gyda'r bwriad o'u hyrwyddo neu gynnal astudiaethau posibilrwydd;
- Ar gyfer prosiectau a all beryglu'r amgylchedd naturiol neu adeiledig;
- Ar gyfer gwaith a ystyrir yn gyfrifoldeb statudol, megis gwelliannau i ffyrdd cyhoeddus neu feysydd parcio.

Dyraniad cronfeydd

3.8. Caiff y CBF ei ddyrannu fel y gwelir yn Nhabl 2 isod:-

| | Swm (amcangyfrif y flwyddyn ) | Dyrannu i: | Sylw: |
|---|---|---|---|
| 1 | £30,000 - £50,000 | Cefnogi defnydd y Ganolfan Ymwelwyr ym Mharc Adfer:-<br>a. Gweithwyr sesiynol ar gyfer grwpiau myfyrwyr / ysgolion.<br>b. Trafnidiaeth rad i ysgolion a myfyrwyr gyrraedd yr adnodd – ar gyfer y pum cyngor sy'n bartneriaid.* | Bydd y dyraniad hwn yn ddibynnol ar nifer yr ymweliadau â'r safle; |
| 2 | £30,000 | Cynllun Grantiau Bach – hyd at £5,000 | |
| 3 | £145,000 - £165,000 | Cynllun Grantiau Mwy – 3 - 6 prosiect yn derbyn hyd at £50,000 y flwyddyn | |
| 4 | £5,000 | Costau Gweinyddol | Amcangyfrif yn unig – wedi ei leihau gymaint ag sydd bosibl. |

Nodiadau Ychwanegol

- Caiff gweithwyr sesiynol eu recriwtio a'u hyfforddi i arwain ymweliadau â'r Ganolfan Ymwelwyr (e.e. ysgolion, grwpiau cymunedol ayyb). Gellir eu cadw ar sail hyblyg "ar alwad";

Trefniadau Rheoli

3.9. Bydd y trefniadau rheoli a osodwyd ar gyfer y CRF yn parhau mewn lle ar gyfer y prif CBF. Mae hyn yn cynnwys Tîm Rheoli Contract Parc Adfer fydd yn cyflawni gwaith gweinyddol megis cydlynu gydag ymgeiswyr, derbyn ceisiadau, diweddaru'r tudalennau perthnasol ar wefan CSFf, asesu'r ceisiadau yn erbyn y prif feini prawf cymhwyster ayyb). Caiff y gwaith hwn ei gefnogi gan swyddogion eraill CSFf fel bo angen o fewn yr adrannau perthnasol. Caiff y penderfyniad i dderbyn neu i wrthod cais am grant ei gymryd gan y Panel, a sefydlwyd ar gyfer y CRF.

3.10. Ar y funud mae aelodaeth y panel yn cynnwys nifer o aelodau CSFf, swyddogion CSFf, a chynrychiolwyr cyrff allanol, yn benodol Cyfoeth Naturiol Cymru a FLVC. Y bwriad yw cadw aelodaeth y panel fwy neu lai yr un fath, gyda nifer fach iawn o newidiadau / ychwanegiadau i adlewyrchu'r amcanion newydd a meini prawf newydd y grant (e.e. Aelodau Portffolio perthnasol a swyddogion penodol gydag arbenigedd / cyfrifoldebau / rolau o fewn gwaith diogelu'r amgylchedd yr Awdurdod).

Camau Nesaf

3.11. Yn awr, gan fod trefniadau rheoli, cymhwyster a meini prawf y prosiect wedi eu cymeradwyo gan Gabinet Cyngor Sir y Fflint ac yn cael eu cyflwyno i'r Cyd Bwyllgor, y cam nesaf o ran y CBF yw i Brif Swyddog Sir y Fflint (Strydoedd a Thrafnidiaeth) arwyddo'r Canllawiau a'r pecyn ymgeisio, a lansio datganiad i'r wasg, gellir cyhoeddi'r cynllun yn ystod mis Mawrth 2022 (gweler Atodiad 3 isod).

**4. ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r Cyd Bwyllgor:
4.1. Nodi cynnwys yr adroddiad, a
4.2. Derbyn diweddariadau ar ddyraniad y gronfa a'r prosiectau llwyddiannus mewn cyfarfodydd y Cyd Bwyllgor yn y dyfodol.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Fel y nodir yn 2.2 uchod.

**6. EFFAITH GWRTH-DLODI**

6.1. Bydd y defnydd a fwriedir ar gyfer y Gronfa o fudd i rai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Sir y Fflint.

**7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL**

7.1. Bydd y defnydd a fwriedir i'r Gronfa o fudd i'r amgylchedd lleol e.e. drwy bump maen prawf y prosiect

**8. EFFAITH CYDRADDOLDEB**

8.1. Dim yn berthnasol.

**9. GOBLYGIADAU PERSONEL**

9.1. Dim yn berthnasol.

**10. YMGYNGHORI ANGENRHEIDIOL**

10.1. Dim.

**11. YMGYNGHORIAD A GYNHALIWYD**

11.1. Dim.


Tudalen 24

## 12. ATODIADAU

12.1 Dim

**DEDDF MYNEDIAD AT WYBODAETH LLYWODRAETH LEOL1985**

**Dogfennau Cefndir:**

Dim.

**Swyddog Cyswllt:** Steffan Owen – Rheolwr Contract NWRWTP


Tudalen 25

## Appendix 2 – Summary of allocation of Parc Adfer Community Recovery Fund

| Ymgeisydd | Type of organisation | Project Title | Summary of project / use of funds | Grant awarded |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Bryn Deva - Foyle Library Scheme | School | Foundation Phase Playground Development | Purchase of Galleon ship for school playground to allow further outdoor learning (Galleon costs were £16,000 the school fundraised the remainder). | £ 10,000 |
| Enbarr Foundation CIC | Company Limited by Share or Guarantee | Beacon of Hope | Re-establish the John Summers Steel works historic Victorian gardens & surrounding site into a sustainable wild meadow, gardens, wetlands and woodland. Key aspects:-<br>• Soak away & restore pathways.<br>• drinking water fountains<br>• equipment for clearing Invasive species<br>• Biodiversity Equipment – Beehives, Rainwater Butts, animal Habitats and Boxes, Plants and Seeds and new trees | £6,961.84 |
| Ysgol Tŷ Ffynnon | Playgroup (within school hall) | Tŷ Ffynnon Playgroup | Purchase of age appropriate resources for two year old children, both indoor and outdoor:-<br>• Storage facilities eg. Shed & cupboards.<br>• Wipe clean cushioned seating that can be used indoor & outdoor.<br>• Work tables and seats at appropriate age and height.<br>• Trikes and bikes for outdoor use.<br>• Exploration resources indoors eg. Small world, Duplo, jigsaws and water etc. | £4,997.90 |
| Queensferry War Memorial Institute | Registered Charity | N/A | Allow the Institute to continue operating at its present level - provide a financial cushion enabling the Institute to continue providing a venue for community use. To offset the fixed costs of running the building in these times of reduced income. Notably the building insurance and liability cover. | £ 1,079 |


Tudalen 26

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| North East Wales Care & Repair Ltd | Company Limited by Share or Guarantee - "Charitable Community Benefit Society" | A Place for You | The wider aim is to develop the 35-acre site, including sports fields and the adjoining Dee Park and woodland to provide a community hub for Glannau Dyfrdwy that C&R call 'A Place For You'. The ambition is to provide an exemplar community health and wellbeing and education location with accessible activities for all on our new 35-acre site. The site is located on the River Dee coastal path.<br><br>C&R want to develop an education package that engages with local schools and sports groups. They have indicated the need to create an online presence with functionality that will allow us to educate, engage, inform and involve a wide range of people that includes schools, community groups and residents of Flintshire about the regeneration the site and increasing function of a 'A Place for You'. | £6,750 |
| Glannau Dyfrdwy Community Trust | Registered Charity | Green Space Hub | Purchase of 5m octagonal outdoor gazebo / shelter, ramp and handrail that will become a permanent part of the land. | £ 7,700 |
| Connah's Quay Town FC | Grass roots football club | Dock Road Project - Barriers | Pitch barrier installation to meet football governing body's meini prawf | £ 2,025 |
| Can Cook/Well Fed | Company Limited by Share or Guarantee - sits within a groups structure that has a charitable status | Well-Fed at Home Meal Box Service | Delivered box meals to vulnerable (elderley and school children inc pre school) - 100% of grant used for food. Other costs will be met by CC/WF. | £ 10,000 |


Tudalen 27

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Groundwork North Wales | Registered Charity | Love your Space | Provide support with gardening tasks to vulnerable people in the Glannau Dyfrdwy area. Beneficiaries are mainly people who are older or have disabilities/health conditions, including those on low incomes. Tasks which supported with included grass cutting, trimming back overgrown shrubs, weeding, and general tidying/simple repairs. This project will took place over the summer of 2021 so that people could enjoy their gardens over the summer. The beneficiaries were people who could not otherwise afford gardening services, cannot maintain their gardens themselves due to age or health reasons, and/or have no family or friends who can help. | £ 5,000 |
| Cambrian Aquatics | Company Limited by Guarantee (Community enterprise) | More Changing Rooms | Cambrian Aquatics Ltd required more changing room to improve social distancing and to enable more customers to use the centre following easing of the COVID-19 lockdown restrictions. After the previous lockdown they reopened but were only able to allow 15 customers through their one-way system for each session. They are hoping with the extra changing rooms they can slowly increase the number of customers back into the centre safety. | £5,896.80 |
| Art and Soul Tribe | Community Interest Company (CIC) | Community Revival Fair | Arranged Community Fair at the Clock Tower site on the river dee, for residents to "enjoy some music, food and nature to help rebuild their wellbeing and mental health after the turmoil's of COVID". The application stated that a "sudden uplift in deemed need and sales of tickets, and local crafts people wanting stalls and over 12 bands playing across the day, it has turned into a bigger affair we did not budget for" | £4,284 |
| Book of You CIC | Community Interest Company (CIC) | Celebrating Life, Sharing Memories, Connecting People | Book of You is a digitial "book" that focuses on memory prompts (e.g.photos, music, film, diaries and spoken messages) to add value to people's lives through shared conversations, capture memories and imortant times in people's lives. It is available in the digital cloud so is available to share with family and friends. Trained staff help with technical support, suggest ideas and get them started etc. The aim of this specific project is to work with Hwb Cyfle daycare centre in Queensferry to bring Book of You to that centre. | £5,000 |
| Connah's Quay Old People's Association | Registered Charity. Charity no: 243148 | Subsidise Transportation | To subsidise transport costs for Members of the group for their weekly gatherings - there are members that need transport to get to the venue, using buses or taxis (unable to drive or unwell). Quote from application - "These gatherings help reduce isolation and helps mental wellbeing" | £1,040 |


Tudalen 28

**Appendix 2 – Draft Press Release for launch of Community Benefit Fund**

Today, the North Wales Residual Waste Treatment Project (NWRWTP) Partnership (known as the Partnership) and Enfinium are pleased to announce that the Parc Adfer Community Benefit Fund is now up and running and open for applications.

The NWRWTP was formed by five North Wales Councils – Conwy County Borough Council, Denbighshire County Council, Flintshire County Council, Gwynedd Council and the Isle of Anglesey County Council – to jointly manage the residual waste generated by the populations from the five local authorities. Residual waste is the waste which is left over after recycling and composting as much as possible.

The Enfnium Parc Adfer Waste to Energy facility is located in Glannau Dyfrdwy Industrial Park and started to treat waste in 2019, diverting waste from landfill and generating enough renewable electricity for around 30,000 homes.

As part of their commitment to the local community, the Partnership and Enfinium have pledged to fund the long term Community Benefit Fund – worth £230,000 a year - for communities in the Glannau Dyfrdwy area. To date the fund has been used to fund an initial, short term, Parc Adfer Community Recovery Fund which is now closed for applications. It awarded grants to 13 projects with a total value of over £60,000.

The types of local organisations who can qualify for support are community and voluntary organisations, community and social enterprises and local (not national) charities based within the defined Glannau Dyfrdwy Partnership Area.

The fund is intended to support projects that help or will benefit the local environment, and there are five main project meini prawf that it will support, which are:-

1. Renewable energy
2. Carbon reduction
3. Waste reduction, reuse and recycling
4. Biodiversity and improvements to local environment quality
5. De-carbonisation of transport

Flintshire's Cabinet Member for Streetscene, Councillor Glyn Banks, said:

"The Parc Adfer Community Benefit Fund is a long term fund intended to benefit communities within the Partnership area, in particular those living closest to Parc Adfer, with a focus on funding projects that help or benefit the environment. This is a really beneficial scheme and I would encourage all those organisations who are eligible to apply. This scheme will help with the continuation of the positive environmental work already taking place."


Tudalen 29

Applications for the Parc Adfer Community Benefit Fund can now be taken, and anyone interested in accessing the fund should contact the team on 01352 704783 or emailing ParcAdferCommunityFund@flintshire.gov.uk.


Tudalen 30

**EITEM AGENDA RHIF: 7**

**ADRODDIAD I:** **CYD BWYLLGOR NWRWTP**

**DYDDIAD:** **4ydd MAWRTH 2022**

**ADRODDIAD GAN:** **RHEOLWR CONTRACT**

**TESTUN:** **ADRODDIAD CANOLFAN YMWELWYR AC ADDYSG**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Cyflwyno diweddariad i'r Cyd Bwyllgor ar y cynnydd a'r cynlluniau ar gyfer canolfan ymwelwyr Parc Adfer a'r rhaglen addysg sydd ynghlwm wrtho.

## 2. CEFNDIR

2.1. Un amod allweddol gyda datblygu Parc Adfer oedd sefydlu Canolfan Ymwelwyr ar y safle a fyddai yn gallu derbyn ymweliadau gan grwpiau a chymunedau ar draws yr awdurdodau sy'n bartneriaid. Bwriadwyd hefyd i'r ganolfan fod yn addas ar gyfer rhaglenni addysg ehangach yr awdurdodau sy'n bartneriaid ac y byddai felly angen menter addysg a fyddai'n cydweithio gydag ysgolion i gefnogi ymweliadau â'r safle.

2.2. Rhan allweddol o'r rhaglen addysg ar gyfer y ganolfan ymwelwyr a amlinellwyd yn 2.1 uchod oedd dyraniad o £30k - £50k y flwyddyn o'r Gronfa Lles Cymuned (a amlinellir yn eitem agenda 6) tuag at redeg a darparu mynediad i'r Ganolfan Ymwelwyr ar gyfer ysgolion a grwpiau ar draws y pump awdurdod sy'n bartneriaid. Mae hyn yn cynnwys datblygu deunyddiau addysgol ayyb, gweithwyr sesiynol ar gyfer myfyrwyr / grwpiau ysgolion a thrafnidiaeth rhad i'r adnodd ar gyfer y cynghorau sy'n bartneriaid.

2.3. Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r awdurdodau sy'n bartneriaid yn ystod cyfnod datblygu'r Ganolfan Ymwelwyr, a chafodd yr ymgynghoriad hwn ei gwblhau yn niwedd 2019. Mae pandemig Cofid-19 wedi golygu oedi o ran datblygu'r rhaglen addysgol a'r ymweliadau â'r safle, fodd bynnag mae'r gwaith wedi ei gychwyn erbyn hyn ac amlinelliad wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

## 3. YSTYRIAETHAU


Tudalen 31

Adnodd Canolfan Ymwelwyr

3.1. Mae'r Ganolfan Ymwelwyr ym Mharc Adfer yn cynnwys 4 ystafell. Ystafell dderbyn yw'r gyntaf. Dyma lle caiff ymwelwyr eu croesawu ac chael lle i oedi tra bydd y tywysydd yn eu cyfarch. Mae dyluniad yr ystafell yn edrych fel byncer gwastraff, ac yn cynnwys craen bychan ar y nenfwd. Mae yno hefyd sgrin fawr i ddangos ffilmiau amrywiol, gan gynnwys fideo o'r adeiladwaith.

3.2. Unwaith y bydd ymwelwyr yn gadael yr ystafell dderbyn, cânt eu tywys i'r brif ystafell aml-ddefnydd. Gellir addasu'r ystafell hon ar gyfer desgiau, offer cynadledda neu beth bynnag fydd ei angen gan y grwp. Mae yno hefyd sgrin fawr i ddangos fideo diogelwch y safle.

3.3. Prif ran y profiad ymwelwyr ym Mharc Adfer yw'r Ystafell Ryngweithiol. Yn yr ystafell hon mae nifer o nodweddion rhyngweithiol sydd o gymorth i weld ble mae'r adnodd yn sefyll o fewn yr hierarchaeth gwastraff, ac yna tywysir yr ymwelwyr drwy'r prosesau trin gwastraff, cynhyrchu trydan, rheoli ansawdd aer ac ailgylchu lludw ar y safle. Dangosir cyfres o luniau yn Atodiad 4 isod.

3.4. Yn olaf, mae galeri gwylio lle gall ymwelwyr weld ystafell reoli'r safle, lle mae model ryngweithiol o'r safle, sydd yn goleuo wrth dynnu lifer ac yn dangos sut mae'r safle yn cynhyrchu trydan.

Camau Nesaf ac Amserlen

Caffael Rhaglen Addysg

3.5. Mae gwaith wedi cychwyn o ran caffael dogfennaeth ar gyfer y rhaglen addysg, yn cynnwys y canlynol:-

- Rhaglen addysg gyfansawdd sydd nid yn unig yn amlinellu Parc Adfer ei hun ac Ynni o Wastraff, ond hefyd yn dangos ble mae yn sefyll o fewn yr hierarchaeth gwastraff;
- Deunyddiau addysgol i gefnogi ymweliadau safle ac i gefnogi ysgolion ar draws y Bartneriaeth os ydynt yn methu ag ymweld â'r safle.
- Cynnwys ar-lein i gefnogi'r rhaglen addysg (mae fideo - pum munud – ar gyfer ymweliad safle wedi ei gynhyrchu, ac mae fideo yn dangos ystafell ryngweithiol y Ganolfan Ymwelwyr yn cael ei datblygu – bydd y ddau hyn ar gael i awdurdodau sy'n bartneriaid pan fyddant wedi eu cwblhau);

Staff i ofalu am ymweliadau safle


Tudalen 32

3.6. Yn ogystal â'r caffael uchod, agwedd aralll sydd yn derbyn sylw yw'r modd y gellir cefnogi ymweliadau safle. Bydd hyn angen staff gyda hyfforddiant arbenigol i arwain grwpiau a chefnogi athrawon sy'n ymweld. Mae rhan o waith y Rheolwr Contract Rhanbarthol ar y funud yn golygu cydlynu gydag Adrannau Strydoedd ac Addysg yr Awdurdod Arweiniol ynghylch y ffordd orau i ddiwallu'r angen hwn. Y materion allweddol i'w hystyried yw:-

- Hyblygrwydd – gan nad ydym yn gwybod hyd yma faint o ddefnydd a wneir o'r Ganolfan Ymwelwyr, nid ydym yn gwybod beth fydd yr anghenion staffio. Gan hynny, bydd yn ofynnol bod yn hyblyg – unai drwy gontract "call off" allanol, neu i'w gwrdd yn fewnol o fewn yr Awdurdod Arweiniol neu awdurdodau sy'n bartneriaid gyda staff presennol sydd wedi eu hyfforddi'n addas.
- Bydd gallu derbyn ymweliadau trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol;
- Bydd Sir y Fflint, fel yr Awdurdod Arweiniol, yn rheoli'r Ganolfan Ymwelwyr trwy galendr a rennir gydag Enfinium – bydd ysgolion yn gallu cysylltu'n uniongyrchol i drefnu eu hymweliadau.

<u>Cymhorthdal teithio ar gyfer ysgolion</u>

3.7. Fel y nodwyd yn 2.2 uchod, mae rhaglen ymwelwyr ac addysg i gael ei ddosbarthu i awdurdodau sy'n bartneriaid er mwyn cynnig cymorth i ysgolion / colegau deithio i'r safle. Caiff manylion y cymhorthdal eu datblygu fel rhan o'r gwaith a amlinellir yn 3.6 uchod wrth drafod cynnal ymweliadau.

<u>Amserlen</u>

3.8. Isod gwelir amlinelliad o amserlen ar gyfer y gwaith uchod:-

| Pa bryd | Gweithredu |
|---|---|
| Mawrth 2022 | Cychwyn Caffael Rhaglen Addysg (deunyddiau, cynnwys ar-lein ayyb) |
| Ebrill 2022 | Cwblhau trefniadau i gwrdd ag anghenion staffio ar gyfer ymweliadau |
| Mai 2022 | Agor y Ganolfan Ymwelwyr ar gyfer ymweliadau safle syml, cynnar (yn debygol o fod yn grwpiau heblaw ysgolion ar y cychwyn) |
| Diwedd Mai 2022 | Rhoi contract ar gyfer datblygu deunyddiau |
| Mai 2022 | Lansio cynllun cymhorthdal ymweliadau safle gyda'r awdurdodau sy'n bartneriaid, |
| Mehefin - Medi 2022 | Datblygu deunyddiau addysgol, cynnwys ar-lein, ymweliadau ayyb, a chychwyn debyn ymweliadau gan ysgolion o fis Medi 2022 |
| Medi 2022 | Ymweliadau ysgolion i gychwyn ym Mharc Adfer |


Tudalen 33

**4. ARGYMHELLION**

4.1. Gofynnir i'r Cyd Bwyllgor:-
1. Nodi cynnwys yr adroddiad.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad hwn.

**6. EFFAITH GWRTH-DLODI**
D/B

**7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL**
Mae adroddiad ar effaith amgylcheddol adnodd Parc Adfer eisoes wedi ei
Gyflwyno i'r Cyd Bwyllgor.

**8. EFFAITH CYDRADDOLDEB**
N/A

**9. GOBLYGIADAU PERSONEL**

9.1. Fel y disgrifiwyd yng nghorff yr adroddiad hwn

**10. YMGYNGHORI SYDD EI ANGEN**
10.1 Ymgynghorir â'r Bwrdd Prosiect yn ystod pob cam allweddol o'r prosiect.

**11. YMGYNGHORI SYDD WEDI DIGWYDD**

11.1. Fel yr amlinellwyd yn yr aroddiad.

**DEDDF MYNEDIAD AT WYBODAETH LLYWODRAETH LEOL 1985**

**Dogfennau Cefndir:**

Dim

**Swyddog Cyswllt:** Steffan Owen
Rheolwr Contract Rhanbarthol
Steffan.r.owen@flintshire.gov.uk


Tudalen 34

# Atodiad 4 – Canolfan Ymwelwyr








Tudalen 35




Rhowch y gwastraff
yn y bwyler
Feed the waste
into the boiler


Tudalen 36



Stêm Pwysedd Uchel
High-pressure Steam
Golchwr Sych
Dry Scrubber
Gadewch i ni adfer ynni
Let's recover energy
Ar agor
Open
Ar gau
Closed
IBA
Ailgylchu Lludw
Gwaelod Llosgydd
IBA Recycling
Adfer Ynni
Energy
Recovery




Gadewch i ni adfer ynni
Let's recover energy
Ar gau
Closed
Ar agor
Open
IBA
Ailgylchu Lludw
Gwaelod Llosgydd
IBA Recycling
Adfer Ynni



Tudalen 37


Gadewch i'r stêm fynd i'r tyrbin
Let the steam into the turbine
Cynhyrchu Ynni Glân
Clean Energy Production


Gweddillion Rheoli Llygredd Aer
Mae nwy bwyler yn cael ei drin â charbon a chalch i gael gwared ar arian byw ac i niwtraleiddio nwyon asid
Air Pollution Control Residue
Boiler gas is treated with carbon and lime to remove mercury and to neutralise acid gases
Hidlyddion Ffabrig
Yna mae nwy bwyler yn mynd drwy hidlyddion ffabrig lle ceir gwared ar unrhyw lygryddion sydd ar ôl
Fabric Filters
Boiler gas then passes through fabric filters where any remaining pollutants are removed
Monitro 24/7
Mae nwy sydd wedi'i lanhau yn cael ei ryddhau ar ôl i gyfres o fonitorau allyriadau parhaus fesur ansawdd yr aer
24/7 Monitoring
Cleaned gas is released after a series of continuous emission monitors measure the air quality
Gweddillion Rheoli Llygredd Aer
Air Pollution Control Residue
Rheoli ansawdd yr aer
Air quality control
Llithrwch i weld sut mae'r hidlyddion yn gweithio
Slide to see how the filters work


Tudalen 38


Ailgylchu Lludw Gwaelod
Bottom Ash Recycling
IBA
Ailgylchu Lludw Gwaelod Llosgydd
IBA Recycling
Defnyddiwch y magnetau i adfer metelau fferrus ac anfferrus
Use the magnets to recover ferrous and non ferrous metals


Tudalen 39

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol

Yn rhinwedd paragraff(au) 14 of Part 4 of Schedule 12A
o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Dogfen Gyfyngedig - Ni ddylid ei chyhoeddi


Tudalen 41

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol

Yn rhinwedd paragraff(au) 14 of Part 4 of Schedule 12A
o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Dogfen Gyfyngedig - Ni ddylid ei chyhoeddi

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol